PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 4 TACHWEDD 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Lay a/ac Graham Thomas |

24 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod hwn.

25 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

26 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

27 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd tuag at sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru o dan oruchwyliaeth Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Lansiwyd Cronfa Cyfleoedd PPC Cymru ar 23 Medi 2019 gydag asedau gwerth cyfanswm o £638m gan gynnwys £218m o Gronfa Bensiwn Caerdydd a’r Fro. Roedd y Gronfa'n gwbl weithredol o 11 Hydref. Bydd adolygiad o'r broses o drosglwyddo asedau i'r Gronfa yn cael ei gyflwyno i'r Panel Cynghori ar Fuddsoddiadau ym mis Rhagfyr. Bydd y Panel hefyd yn derbyn adroddiadau perfformiad rheolaidd ar gyfer y Gronfa. Bydd cofnodion y cyfarfodydd hynny yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor hwn.

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cymeradwyo pum is-gronfa incwm sefydlog a chânt eu lansio cyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20. Ar hyn o bryd, mae gan Gaerdydd asedau gwerth cyfanswm o £604m mewn incwm sefydlog.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu atebion ar gyfer dosbarthiadau asedau pellach. Sefydlwyd is-grŵp o'r Gweithgor Swyddogion i archwilio'r opsiynau ar gyfer marchnadoedd preifat gan gynnwys eiddo, stociau ecwiti preifat a seilwaith.

Lansiwyd gwefan y PPC ym mis Medi ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y PPC, ei strwythur llywodraethu, ei pholisïau a'r cronfeydd buddsoddi sy'n cael eu sefydlu.

Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 20 Medi bolisi buddsoddi cyfrifol y PPC. Mae'r polisi hwnnw wedi'i gyhoeddi ar wefan y PPC.

PENDERFYNWYD:

- Nodi'r datblygiadau diweddar yn y broses o sefydlu cronfa fuddsoddi’r PPC.

28 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys ystyried datganiadau ariannol y Gronfa a chytuno ar yr adroddiad blynyddol.

Cyflwynwyd cyfrifon drafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a’r Fro ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2019 i Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2019 a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Mehefin 2019.

Cymeradwywyd y cyfrifon archwiliedig gan y Cyngor Llawn yn y cyfarfod ar 12 Medi 2019.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys:

- Enwau aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, y Panel Cynghori ar Fuddsoddi a'r Bwrdd Pensiynau Lleol
- Manylion Rheolwyr Buddsoddi a Chynghorwyr Proffesiynol y Gronfa
- Crynodeb o'r trefniadau gweinyddu ar gyfer y Gronfa
- Adroddiad ar Reoli Buddsoddiadau a Pherfformiad
- Datganiad gan Actiwarïaid y Gronfa
- Atodiad sy'n cynnwys data ystadegol, rhestr termau a manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth
- Datganiadau llywodraethu allweddol y Gronfa a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Cyngor erbyn y dyddiad cau statudol, sef 1 Rhagfyr.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth ar hyn o bryd gan ei bod yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad o'r adroddiad blynyddol, nad yw wedi'i gwblhau eto.

PENDERFYNWYD:

- Gohirio cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol y Gronfa ar gyfer 2018-19 tan y bydd yr adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gwblhau.

29 : Y GOFRESTR RISGIAU;

Cedwir y Gofrestr Risg ar gyfer y Gronfa Bensiwn fel rhan o'r broses Rheoli Risg Gorfforaethol. Mae'n ymdrin â phob agwedd ar reoli'r Gronfa gan gynnwys Buddsoddiadau, Ariannu, Llywodraethu a Gweinyddu.

Mae'r Gofrestr, a ddisgrifir fel dogfen fyw, yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan swyddogion y Gronfa a'r Bwrdd Pensiynau Lleol. Cafodd ei adolygu hefyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau yn ystod yr ymarfer ymgysylltu diweddar.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiynau Lleol ar 5 Tachwedd a byddant yn cael y sefyllfa ddiweddaraf wrth symud ymlaen. Cafwyd rhai mân ddiwygiadau cynyddrannol yn unig.

Nododd yr Aelodau fod Seiber-ddiogelwch wedi'i ychwanegu at y Gofrestr Risgiau.

Trafododd yr Aelodau newid y Gofrestr Risg yn ddiweddar sy'n ymwneud â chywirdeb ac amseroldeb taliadau i bensiynwyr. Mae cwmni allanol wedi'i gontractio i gynnal adolygiad.

Trafododd aelodau'r risg ynghylch cronni buddsoddiadau, yn arbennig y risg nad yw'r Gronfa yn cyd-fynd ag anghenion a rhwymedigaethau pensiwn Caerdydd ei hun. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

30 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

- Mae'r eitemau canlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 o Rannau 4 a 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972;
- Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitemau hyn.

31 : STRATEGAETH BUDDSODDI

PENDERFYNWYD:

- Nodi a chymeradwyo'r argymhellion.

32 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

PENDERFYNWYD:

- Nodi cofnodion y Panel Cynghori ar Fuddsoddi

33 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

34 : DATE OF NEXT MEETING

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 28 Tachwedd 2019 ar adeg ac mewn lleoliad i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm